“a phaid â’n dwyn i brawf, ond gwared ni rhag yr Un drwg.”
(Mathew 6:13)

Wedi’n dysgu i ofyn am faddeuant dyddiol, mae’r Arglwydd nawr yn ein dysgu i ofyn am ras bob dydd i osgoi sefyllfaoedd o demtasiwn ac i’w gwrthwynebu pan ddont.

Paratoad a gweithrediad

Mae pob milwr yn gorfod ei baratoi ei hun cyn mynd i frwydr yn ogystal â bod yn ddewr yn y frwydr. Mae’r ddau gais yma’n gofyn am ras i fod yn barod ar gyfer brwydr ysbrydol y dydd, fel petai, ac am nerth i orchfygu’r gelyn. Mae’r cymal cyntaf yn ein harwain i gredu y gallwn osgoi nifer o demtasiynau os cawn ras arbennig gan yr Arglwydd. Fe ddaw’r gras yna wrth i ni rodio’n agos ato Ef.

Gras i wylio

Dywedodd Iesu wrth ei ddisgyblion i wylio a gweddïo. Rhaid i bob milwr fod yn wyliadwrus ac effro iawn i fod yn barod am ymosodiadau amrywiol ac annisgwyl y gelyn. Wrth weddïo’r weddi yma, rŷn ni’n cydnabod ein gwendid, a’n tuedd i gysgu’n ysbrydol. Fel y cysgodd Pedr, Iago ac Ioan yn Gesthemane pan oedd Iesu yn nannedd ei frwydr fawr, mae tueddiad tebyg ynom ni i hepian pan ddylem fod yn ymgodymu â’r gelyn.

Ar ben hynny, mae’n hawdd i’n cydwybod fod yn gysglyd a thrwm hefyd. Oherwydd dylanwad ein cnawd a’r byd o’n cwmpas, gallwn fynd yn ddideimlad i berygl a gwenwyn pechod. Mae mor hawdd i ni gael ein suo i gysgu a pheidio â deffro nes bod brathiad y sarff a cholyn pechod yn gafael ynom.

Arweiniad a buddugoliaeth

Yn y deisyfiad yma, rŷn ni’n dangos ein hangen am arweiniad gan Dduw gydol y dydd. Heb fod yn sensitif i’w arweiniad mewn pethau cymharol fach, gallwn ein gosod ein hunain yn agored iawn i ymosodiadau ffyrnig yr Un drwg. Os na fydd ein llygaid ar yr Arglwydd, mae’n gymaint haws i Satan ein baglu ar ein ffordd. Oherwydd bod eu golwg ar Dduw, gwrthododd Daniel a’i gyfeillion fwyd brenin Babilon a’u cadw eu hunain rhag cyfaddawdu mewn gwlad ddiethr (Dan. 1).

Mae’r weddi’n dangos ymwybyddiaeth o’n gwendid arbennig gyda rhai pechodau. Mae’n rhaid gofyn am ras arbennig gyda’r rheini. Bydd y pechod sy’n tueddu i’n baglu’n hawdd yn wahanol i bob Cristion. Dyw gwendid arbennig

un person ddim yn gymaint o broblem i rywun arall. Rhaid gofyn am help arbennig gyda phechodau oedd yn broblem i ni cyn dod yn Gristnogion, oherwydd yn aml mae'n hawdd llithro nôl iddynt.

Casineb a duwioldeb!

Mae bod yn dduwiol yn golygu bod yn debyg i Dduw, ac mae hynny'n golygu casáu drygioni â chas perffaith. Rŷn ni'n gofyn am fwy o atgasedd at bechod, ac am ras i'w adnabod fel gwenwyn marwol i'n henaid. Problem pechod yw fod pleser ynddo i ni yn ein natur lygredig. Fyddem ni fyth yn syrthio i demtasiwn petai pechod yn ffieidd-dra llwyr i ni. Roedd ffrwyth pren gwybodaeth da a drwg yn edrych yn ddeniadol ac yn blasu'n dda i Efa ac Adda, er fod Duw wedi ei wahardd. Gall meddwl am ddial roi pleser gwyrdroëdig i ni, fel cael ein dyrchafu gan bobl, neu gael bywyd o ddiogi, esmwythdra ac oferedd. Rhaid gofyn am ras i weld perygl pechod ac i edrych trwy ei ddeniadau arwynebol.

Mae angen i ni weld pechod fel y gwêl Duw ef. Mae hiraeth ar y Cristion i ddymuno beth mae Duw'n ei ddymuno, ac i wrthod beth mae Duw'n ei wrthod. "boed f'ewyllys i byth mwy fel yr eiddot ti."

Canol y ffordd

Mae'r weddi yma'n deisyf ein cadw rhag eithafion. Mae gormodedd o gyfoeth neu dlodi yn dod â'i demtasiynau gydag ef. Dyma eiriau dyn doeth Diarhebion 30:8:

"**paid â rhoi imi dlodi na chyfoeth; portha fi â'm dogn o fwyd, rhag imi deimlo ar ben fy nigon, a'th wadu, a dweud, "Pwy yw'r Arglwydd?" Neu rhag imi fynd yn dlawd, a throi'n lleidr, a gwneud drwg i enw fy Nuw.**"

Mae'r Arglwydd yn ein harwain i weddïo na fydd ein hamgylchiadau yn ein harwain i bechod.

Yr Un drwg

Gall y gair Groeg fod yn wrywaidd neu'n ddiryw. Felly, mae'r cyfieithiad 'y drwg' neu 'yr Un drwg' yn gywir a does fawr o wahaniaeth yn y pendraw. Y gelyn chwerw sydd yn ceisio rhwystro'n hiachawdwriaeth a'n cymundeb â Duw yw diafol. Nod Satan yw ein gwrthwynebu a'n dal mewn drygioni, er mwyn difetha'n mwynhad o'n Harglwydd a'i iachawdwriaeth, a cheisio difetha'n tystiolaeth i'w ras gogoneddus.

Dyma batrwm allweddol o weddi hanfodol i ni yn ein brwydr ysbrydol o ddydd i ddydd ar faes y gad yn y byd hwn.